| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **24 MEHEFIN 2021** |
| TEITL: | **BUDDSODDI CYFRIFOL** |
| PWRPAS: | **Diweddaru Datganiad Buddsoddi Cyfrifol Cronfa Bensiwn Gwynedd** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno datganiad diwygiedig Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa.

## 2. DATGANIAD GAN Y GRONFA

2.1 Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bod yn gweithio ers peth amser bellach i sicrhau fod ein hymgynghorwyr a'n rheolwyr asedau yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy. Ym mis Chwefror 2021, gyda phwysigrwydd y maes yn cynyddu, wnaethom gyflwyno Datganiad Buddsoddi Cyfrifol a oedd yn darparu safbwynt y Gronfa o ddadfuddsoddi o danwydd ffosil.

## 3. DATBLYGIADAU

3.1 Mae nifer o ddatblygiadau wedi bod ers mis Chwefror ac felly rydym wedi diweddaru'r datganiad, mae'r newidiadau wedi ei goleuo yn felyn yn Atodiad 1 a ceir rhagor o wybodaeth isod:

- Cronfa Global Growth (17% o Gronfa Gwynedd) - Soniwyd ym mis Chwefror bod Baillie Gifford wedi datblygu cronfa sydd yn dad- fuddsoddi o gwmnïau echdynwyr tanwydd ffosil a darparwyr gwasanaeth tanwydd ffosil (penderfyniad Pwyllgor Pensiynau, 21 Ionawr 2021) a rŵan mae Pzena wedi penderfynu gwerthu stociau mewn cwmni a oedd yn cyfrannu i 35% (ar 31 Rhagfyr 2020) o allyriadau carbon y gronfa benodol yma.

- Cronfa Global Opportunities (17% o Gronfa Gwynedd) -Mae'r 'decarbonisation overlay' gan Russell Investments sy'n lleihau'r ôl-troed carbon y gronfa yma o 25% rŵan yn weithredol.

- Russell Investments (Darparwr Datrysiad Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru) – wedi datgan eu bod am gyflawni safon o allyriadau carbon net-sero yn eu portffolios buddsoddi yn fyd-eang erbyn 2050.

- Meincnod ESG GRESB – cyflwynwyd ym mis Chwefror bod UBS yn safle rhif 1 yn ei grŵp o gyfoedion ar gyfer eu sgôr 'ESG GRESB' yn 2020, ond ers hynny rydym wedi cadarnhau bod Black Rock yn safle rhif 2.

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r datganiad ac i'r Cadeirydd lofnodi'r datganiad.